

# Absenoldeb Rhiant



**ADRAN DATBLYGU SEFYDLIADOL**

Cyhoeddwyd: Mawrth 2023 Adolygir: Hydref 2027

# Rheoli Fersiwn

Bwriedir y ddogfen hon ar gyfer

Staff y Cyngor yn unig     Staff seiliedig mewn ysgolion yn unig     Staff y Cyngor a seiliedig mewn ysgolion

| Fersiwn     | Newidiadau  | Cymeradwywyd gan    |
|-------------|---|---------------------|
| Ionawr 2020 | Diweddarwyd yr adran "Perthynas gyda'r Cynllun Blwydd-daliadau" yng nghyswllt cyfraniadau ychwanegol i'r cynllun pensiwn. | Tîm Rheoli Adrannol |
| Hydref 2022 | Adolygiad a drefnwyd; moderneiddio/diweddarau iaith/manylion a dileu unrhyw ddyblygu                                      | Tîm Rheoli Adrannol |
| Mawrth 2023 | Diweddarau gwybodaeth am bensiynau  | Tîm Rheoli Adrannol |

Gellir adolygu a diwygio'r ddogfen hon ar unrhyw amser a heb ymgynghoriad mewn ymateb i ofynion cyfreithiol neu mewn ymateb i ofyniad sefydliadol a lle nad yw newidiadau yn adlewyrchu newid sylfaenol neu'n effeithio ar ysbryd neu fwriad y ddogfen.

## Cynnwys

|  |   |
|--|---|
| 1. Cyflwyniad.....                               | 3 |
| 2. Cwmpas .....                                  | 3 |
| 3. Cymhwyster dan y Cynllun.....                 | 3 |
| 4. Hawl i Absenoldeb .....                       | 4 |
| 5. Yr Hawl i Ddychwelyd i'r Gwaith.....          | 4 |
| 6. Gwybodaeth Gyffredinol.....                   | 4 |
| Atodiad 1: Cais am Absenoldeb Di-dâl Rhiant..... | 6 |

# 1. Cyflwyniad

---

Mae'r Cyngor yn gweithredu cynllun ar gyfer **absenoldeb di-dâl rhiant** yng nghyswllt gofalu am blant y mae gan gyflogai gyfrifoldeb rhiant drostynt.

Mae'r canllawiau yn anelu i nodi mor syml ag sydd modd y rheoliadau ar absenoldeb di-dâl i riant sydd ar gael i gyflogeion a'r amodau cysylltiedig. Dylai cyflogeion ddarllen yr wybodaeth ddilynol yn ofalus a llenwi a dychwelyd y ffurflen gais.

# 2. Cwmpas

---

Mae hawl cyflogai i absenoldeb di-dâl i riant yn dechrau ar ddyddiad geni y plentyn, cyn belled â bod ganddynt un flwyddyn o wasanaeth parhaus ar y dyddiad hwn.

Mae angen i gyflogai roi **21 diwrnod o hysbysiad** cyn bod yr absenoldeb di-dâl i riant yn dechrau, gan nodi dyddiadau dechrau a gorffen. Bydd hyn yn rhoi amser i'w cyfarwyddiaeth i wneud unrhyw drefniadau staffio dros dro, a all fod eu hangen i lanw dros eu habsenoldeb. Mewn amgylchiadau lliniarol, gall reolwr gytuno i ostwng y cyfnod hysbysiad.

Dylid gwneud cais am absenoldeb di-dâl i riant mewn ysgriflen drwy lenwi'r ffurflen gais (PL1), a'i dychwelyd i reolwr y cyflogai a fydd wedyn yn anfon y cais ymlaen at Datblygu Sefydliadol o fewn yr amserlen a nodir uchod.

Dylid cyflwyno tystysgrif geni wreiddio/tystysgrif paru mabwysiadu gyda'r cais dechreuol.

# 3. Cymhwyster dan y Cynllun

---

Mae'n rhaid i'r plentyn fod dan 18 mlwydd oed.

Mae'n rhaid i gyflogai gael o leiaf un flwyddyn o wasanaeth parhaus er mwyn bod yn gymwys am absenoldeb di-dâl i rieni.

Rhaid i'r cyflogai gael ei (h)enwi ar dystysgrif geni/mabwysiadu y plentyn neu orchymyn rhiant.

Mae'n rhaid i gyflogai fod â, neu'n disgwyl cael, cyfrifoldeb am blentyn. Mae cyfrifoldeb am blentyn yn cynnwys:

- Mam y plentyn.
- Tad y plentyn os yw'n briod â'r fam adeg y geni neu wedi cofrestru fel tad y plentyn.
- Y tad (os na ddaw o fewn yr uchod) os cafwyd cyfrifoldeb rhiant dan y Ddeddf Plant 1989
- Gwarcheidwad a benodwyd dan Adran 5 Deddf Plant 1989
- Rhieni mabwysiadol.

## 4. Hawl i Absenoldeb

---

- **18 wythnos** o absenoldeb di-dâl ar gyfer **pob plentyn a phlentyn mabwysiedig**, hyd at eu pen-blwydd yn 18 oed. Bydd angen tystiolaeth ddogfennol er mwyn sefydlu'r absenoldeb a gymerwyd gyda chyflogwyr blaenorol. Ni fyddai cyflogeion yn gymwys am absenoldeb rhiant os y cafwyd yr holl gyfnod gyda chyflogwyr blaenorol.
- Dim ond mewn blociau neu luosion o wythnos y gall cyflogeion gymryd absenoldeb di-dâl rhiant. Os yw cyflogai yn cymryd absenoldeb am gyfnod byrrach na wythnos caiff ei gyfrif fel wythnos (e.e. 2 ddiwrnod o absenoldeb = 1 wythnos o hawl absenoldeb rhiant).
- Yn achos rhiant plentyn anabl, mae gan gyflogeion hawl i gymryd yr absenoldeb mewn dyddiau unigol.
- Dim ond **4 wythnos** o absenoldeb di-dâl rhiant **ar gyfer pob plentyn** y gall cyflogeion ei gymryd yn ystod blwyddyn neilltuol. Lle mae'r ddau riant yn gweithio i'r Cyngor, mae ganddynt hawl i gymryd absenoldeb rhiant yng nghyswllt yr un plentyn.
- Lle mae cyflogai eisiau cymryd absenoldeb rhiant yn ystod yr wythnos pan fo gŵyl banc, byddent yn derbyn tâl am yr ŵyl banc ond byddent wedi defnyddio wythnos o'u hawl i absenoldeb rhiant.

## 5. Yr Hawl i Ddychwelyd i'r Gwaith

---

- Byddai gan gyflogai hawl i ddychwelyd i'r un swydd.
- Os yw cyflogai yn cymryd absenoldeb di-dâl rhiant yn syth ar ôl cyfnod o absenoldeb mamolaeth di-dâl, ni fydd ganddo/ganddi hawl awtomatig i ddychwelyd i'r un swydd os nad yw'n rhesymol ymarferol. Fodd bynnag, bydd ganddynt hawl i ddychwelyd i swydd sy'n addas iddynt ac yn briodol yn yr amgylchiadau.

## 6. Gwybodaeth Gyffredinol

---

- **Gohirio:** Gall y cyfnod absenoldeb **gael ei ohirio** mewn amgylchiadau eithriadol (am uchafswm o 6 mis) os byddid yn tarfu yn ormodol ar weithrediad y busnes. Er enghraifft, pan mae'r gwaith ar frig tymhorol, lle mae cyfran sylweddol o'r gweithlu yn gwneud cais am absenoldeb rhiant ar yr un pryd neu pan fo rôl y cyflogai yn golygu y byddai eu habsenoldeb neilltuol yn amharu'n ormodol ar y busnes. Fodd bynnag, os yw'r absenoldeb i gael ei gymryd ar unwaith ar ôl i blentyn gael ei (g)eni neu ei r(h)oi i'w mabwysiadu, **ni all** y cyflogwr ohirio'r absenoldeb.

- **Perthynas gyda'r Cynllun Salwch:** Ni chaiff absenoldeb rhiant ei drin fel absenoldeb salwch ac ni roddir ystyriaeth iddo ar gyfer cyfrif y cyfnod hawl i absenoldeb salwch.
- **Parhad Gwasanaeth:** Caiff absenoldeb di-dâl rhiant ei ystyried fel gwasanaeth parhaus.
- **Pensiwn**

- **Aelodau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS)**

Os yw cyflogai yn cymryd absenoleb di-dâl rhiant, ni fyddant yn crynhoi pensiwn LGPS yn ystod y cyfnod hwn. Fodd bynnag, gall cyflogai ddewis talu Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol (APC) i ad-brynu pensiwn 'coll' pan fyddant yn dychwelyd i'r gwaith. Mae 'coll' yn golygu'r pensiwn y byddent wedi ei crynhoi pe byddent wedi bod yn gweithio'n arferol yn ystod absenoldeb di-dâl rhiant.

Os yw cyflogai yn dewis talu APC i ad-brynu'r pensiwn coll o fewn 30 diwrnod o ddychwelyd i'r gwaith, caiff y gost ei rhannu gyda'r cyflogwr yn talu dau-draean a'r cyflogai yn talu'r traean arall. Os yw cyflogai yn dewis talu'r APC ar ôl 30 diwrnod o ddychwelyd i'r gwaith, yna byddai'r gost yn cael ei rannu.

Gall cyflogai ganfod faint y byddai'n ei gostio i dalu APC ar y gyfrifianell ddilynol:

[www.lgpsmember.org/help-and-support/tools-and-calculators/buy-lost-pension-calculator/](http://www.lgpsmember.org/help-and-support/tools-and-calculators/buy-lost-pension-calculator/)

Bydd angen i gyflogai roi eu manylion yn cynnwys eu 'Tâl Pensiynadwy Coll'. Dyma'r tâl y byddai wedi ei dderbyn yn ystod unrhyw gyfnod absenoldeb di-dâl rhiant pe byddent wedi bod yn gweithio'n arferol, a gellir cael hyn gan y Tîm Cyflogres drwy anfon e-bost at [HRPayroll@blaenau-gwent.gov.uk](mailto:HRPayroll@blaenau-gwent.gov.uk). I dalu APC i adbrynu'r pensiwn coll, bydd angen llenwi ffurflen gais o fewn y gyfrifianell a'i dychwelyd i'r Tîm Cyflogres.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â'r Swyddog Pensiynau a Thechnegol yn Datblygu Sefydliadol:

E-bost: [Pensions@blaenau-gwent.gov.uk](mailto:Pensions@blaenau-gwent.gov.uk)

Ffôn: (01495) 355170

- **Aelodau Cynllun Pensiwn Athrawon (TPS)**

Os yw cyflogai yn penderfynu cymryd toriad hirach o'r gwaith, ar ôl i'w tâl contractiol a statudol ddod i ben, cânt eu barnu fel bod 'allan o wasanaeth'. Bydd yn aelod gohiriedig o'r Cynllun Pensiwn Athrawon nes y byddant yn dychwelyd i wasanaeth pensiynadwy (actif). Mae hyn yn golygu na fydd ganddynt hawl i fuddion 'marwolaeth mewn gwasanaeth' pe byddent yn marw yn ystod y toriad.

- **Gweithdrefn Cwynion:** Os yw cyflogeion yn teimlo y gwrthodwyd cais dilys am absenoldeb rhiant, neu y cafodd absenoldeb ei ohirio heb gyfiawnhad, dylent geisio datrys hyn gyda'u rheolwr yn y lle cyntaf. Os yw hyn yn aflwyddiannus gweler y [Weithdrefn Cwynion](#).

# Cais am Absenoldeb Di-dâl Rhiant

DYLID LLENWI A DYCHWELYD Y FFURFLEN HON AT [HRpayroll@blaenau-gwent.gov.uk](mailto:HRpayroll@blaenau-gwent.gov.uk)

## ADRAN 1 – MANYLION PERSONOL

|                         |                               |                              |  |
|-------------------------|-------------------------------|------------------------------|--|
| Enw Llawn               | <input type="text"/>          |                              |  |
| Cyfeiriad Cartref:      | <input type="text"/>          |                              |  |
| Rhif Ffôn:              | Cartref: <input type="text"/> | Gwaith: <input type="text"/> |  |
| Swydd:                  | <input type="text"/>          |                              |  |
| Man Gwaith:             | <input type="text"/>          |                              |  |
| Rhif Staff:             | <input type="text"/>          |                              |  |
| Rhif Yswiriant Gwladol: | <input type="text"/>          |                              |  |

Ar ôl darllen yr wybodaeth a atodir, rwyf drwy hyn yn gwneud cais am Absenoldeb Rhiant dan gynllun cymeradwy yr Awdurdod.

Dyddiadau y gwneir cais am absenoldeb rhiant O:  I:

Nifer Wythnosau (*Ar gyfer diben cofnodi eich absenoldeb, mae 2 ddiwrnod yn cyfrif fel 1 wythnos*)  WYTHNOS

## ADRAN 2 - DATGANIAD

Enw'r plentyn y gwneir cais am absenoldeb rhiant amdano/amdani:

Cyflwynwch dystysgrif(au) geni wreiddiol/paru mabwysiadu y plentyn/plant. Os yw eich plentyn/plant yn derbyn Lwfans Byw i'r Anabl, bydd angen tystiolaeth.

Os na chewch eich enwi ar y dystysgrif geni, ticiwch ym mha categori isod yr ydych ynddo.:

- Tad oedd yn briod â'r Fam adeg y geni
- Rhiant a gafodd Gyfrifoldeb Rhiant dan Ddeddf Plant 1989
- Gwarcheidwad a benodwyd dan Adran 5 Deddf Plant 1989
- Rhiant mabwysiadol

Os ydych yn cymryd Absenoldeb Di-dâl Rhiant, fydddech chi'n hoffi ad-dalu Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol ar yr absenoldeb di-dâl? (*LGPS yn unig*) a ddiwyddir ar 1/3 cyflogai, 2/3 cyflogwr

Byddwn  Na

**RWY'N CADARNHAU MAI FY NIBEN MEWN GOFYN AM ABSENOLDEB YW GOFALU AM FY MHLENTYN/PLANT.  
GALL DATGANIAD HEB FOD YN WIR ARWAIN AT WEITHREDU DISGYBLAETH.**

Llofnod:  Dyddiad

### DATGANIAD RHEOLWR

Gallaf gadarnhau fod y dyddiadau cais ar gyfer Absenoldeb Rhiant yn dderbyniol a fy mod yn fodlon mai'r ymgeisydd yw'r rhiant neu a enwir yn y categori uchod yn unol â chanllawiau yr awdurdod.

Llofnod:  Enw mewn Print:  Dyddiad: